## Adroddiad Blynyddol Bob Kilmister

# EURAIDD YW TAWELWCH?

Yng Nghyfarfod Llawn diwethaf y Cyngor, cynigiodd Bob Kilmister y dylai Cynghorwyr fod â'r hawl i annerch y Cabinet os oeddent yn ystyried eu Rhybudd o Gynnig. Ymgais yw Rhybudd o Gynnig i newid Polisi'r Cyngor ar bwnc. Mae'r Cabinet yn cynnwys 10 Cynghorydd Grŵp Politicaidd Annibynnol. Pleidleisiodd y Cyngor 35 i 20i atal hyn rhag digwydd. **Beth ydych chi'n ei feddwl?**

# YMGYNGHORI – NA DIM DIOLCH

Awgrymodd Bob Kilmister trwy Rybudd o Gynnig i'r Cyngor Sir gynnal adolygiad o'i broses ymgynghori gyda thrigolion a sefydliadau, Mae'n anodd credu ond gwrthodwyd hyn am fod y Cynghorwyr yn meddwl fod popeth yn iawn. Trueni ynglŷn â chau Pwll Nofio Tyddewi, Cynlluniau Llyfrgell Wdig ac Aberdaugleddau sydd wedi'u beirniadu mor hallt wedi i'r penderfyniad gael ei wneud ar ôl proses ymgynghori gwael iawn.
**Beth ydych chi'n ei feddwl?**

# ARFER GORAU? DIM YN SIR BENFRO

Cynigiodd Bob Kilmister a Mike Stoddart (Old Grumpy) ill dau, y dylai Cyngor Sir Benfro fabwysiadu'r arfer gorau yn y modd y maent yn penodi Cadair ac Is-Gadeirydd Pwyllgorau Craffu. Fodd bynnag, anghytunodd y Cyngor a gwnaethant bleidleisio yn erbyn hyn. Ar hyn o bryd, mae POB Cadair yn aelod o Grŵp Politicaidd Annibynnol. Mae Pwyllgorau Craffu i fod i adolygu penderfyniadau'r Cabinet. Yn rhyfeddol, nid yw hyn wedi digwydd - Ys gwn i pam? Mae angen craffu go iawn arnom ni. **Beth ydych chi'n ei feddwl?**

# GWEITHGAREDDAU ERAILL

Mae Bob wedi mynychu pob Cyfarfod o'r Cyngor ar wahân i'r Pwyllgor Trwyddedu ar Chwefror 3ydd pan gafodd ei ddal gan yr eira. Mae wedi gofyn 9 cwestiwn ac wedi cyflwyno 6 Rhybudd o Gynnig. Dyma'r nifer mwyaf gan unrhyw gynghorydd. Mae wedi mynychu cyfarfodydd o'r Cyngor Cymunedol yn y 3 ardal y mae'n eu cwmpasu. Talwyd £11,466.15 yn ystod y flwyddyn sy'n gorffen 05/04/09. Hawliodd ar gyfer 744 milltir a gostiodd £372.00. Mae'n gobeithio eich bod yn teimlo ei fod wedi cynrychioli'r ardal yn dda ers i chi ei ethol e.

**Bob Kilmister a'r Dem Rhydd yn Gweithio'n Galed Drosoch Chi**

# Feidr Fawr

Mae wyneb newydd wedi'i osod ar y ffordd hon wedi i Bob Kilmister berswadio'r Cyngor Sir fod eisiau gwneud rhywbeth amdano. Bellach yr ydym yn gobeithio y bydd y gwaith draenio sydd wedi'i wneud eisoes yn gwella pethau'n sylweddol.

# Goryrru

O'r diwedd, mae Dinas Cross wedi dod yn safle camera diogelwch. Mae h wedi cymryd deuddeg mis i'r Cyngor Cymunedol a minnau i gyrraedd y sefyllfa hon. Dylai hyn fod wedi bod mor hawdd, ond mae'r sefydliadau yn gweithio mor araf. Mae'n beth rhwystredig iawn i bawb sy'n ymwneud ag e. **Beth Ydych Chi'n Ei Feddwl?**

# Llifogydd

Mae'r perygl o lifogydd yn ardal Spring Hill yn dal i fod yno. Mae peth gwaith wedi'i wneud, ond y broblem fwyaf yw maint i biben draenio dan yr A487. Yn syml, nid yw hi'n ddigon mawr. Nid yw Asiantaeth Briffyrdd eisiau wneud gwaith i wella'r sefyllfa oherwydd y gost. **Beth Ydych Chi'n EI Feddwl?**

# Ymunwch â'r Tîm

Os ydych chi'n cefnogi Bob Kilmister a Ffocws pa na wnewch chi ymuno â'r tîm? Mae angen cymorth ar Bob gyda dosbarthu taflenni, ac mae e hefyd eisiau ymestyn Ffocws i ardaloedd eraill. Er mwyn gwneud hynny, mae angen cymorth ychwanegol arno. Mae newid ond yn digwydd os gwnewch chi iddo ddigwydd! A wnewch chi e-bostio Bob yn bobkilmister@aol.com neu ffonio 875566 am sgwrs ddiamod.

# Cyngor a Chymorth

Nid yw Bob Kilmister yn cynnal meddygfeydd. Yn lle, mae e'n dod i ymweld â **CHI**. Da chi cysylltwch drwy ffonio 01348 875566 neu drwy e-bost yn bobkilmister@aol.com ac mi wnaiff e drefnu ymweld â chi.

**Eich Cynghorydd Yn Cadw mewn Cysylltiad**

Printed by Tudor Press on behalf of Bob Kilmister all at Liberal Hall St Mary's Street Haverfordwest SA61 2DR